**Dyddiad**/Date 8 Ebrill 2024
**Gofynnwch am**/Ask for M Matthews
**Rhif ffôn**/Telephone 01446 - 709727
**Ffacs**/Fax
**e-bost**/e-mail Admissions@valeofglamorgan.gov.uk
**Eich Cyf**/Your Ref
**Fy Nghyf**/My Ref MM/ADM

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri,
CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk
The Vale of Glamorgan Council
Dysgu a Sgiliau
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63
4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**I: Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd, Cynradd, Meithrin ac Arbennig Cymunedol, Ysgolion Sefydledig, Ysgolion Cynradd a Gynorthwyir ac a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgolion Uwchradd a Chynradd Catholig**
**Awdurdodau Lleol Cyfagos**
**Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol**
**Fforwm Derbyniadau Bro Morgannwg**

Annwyl Ymgynghorai,

**CYNGOR BRO MORGANNWG - TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2025/2026**

Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2023 yn gwahodd sylwadau ar drefniadau derbyn arfaethedig y Cyngor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/2026. Gwahoddwyd sylwadau ar y trefniadau derbyn i gael eu dychwelyd erbyn 9 Chwefror 2024.

Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r newid categori dilynol ar gyfer Ysgol Stanwell, cafodd y trefniadau derbyn ar gyfer 2025/2026 eu hystyried gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2024. Yn y cyfarfod hwn penderfynodd y Cabinet ar drefniadau derbyn y Cyngor. Mae'r trefniadau derbyn ynghlwm, a fydd yn dod yn bolisi derbyn yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2025/2026.

O ganlyniad i newid categori diweddar ar gyfer Ysgol Stanwell o Statws Sefydledig i Statws Cymunedol o fis Medi 2024, Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Stanwell o'r dyddiad hwn. Bydd trefniadau derbyn y Cyngor yn berthnasol i gynnwys trefniadau pontio ar gyfer plant sy'n mynychu dosbarth derbyn i flwyddyn 6 yn un o ysgolion bwydo dynodedig Stanwell cyn y newid statws. Yr ysgolion bwydo dynodedig yw ysgolion cynradd Albert, Evenlode, Sili a Victoria. Bydd y trefniadau pontio yn rhan o bolisi derbyn y Cyngor ar gyfer 2025/2026. Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf sy'n gymwys o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

Yn gywir

*L Lewis*

Lisa Lewis
Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg**/Correspondence is welcomed in Welsh or English